ATODLEN 3

Materion a rhwymedigaethau mewn cytundebau gofal maeth

**2.** Rhwymedigaethau'r rhiant maeth—

(a) gofalu am unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gydag ef fel pe bai'r plentyn yn aelod o deulu'r rhiant maeth a hybu lles y plentyn hwnnw gan roi sylw i'r cynlluniau hirdymor a byrdymor ar gyfer y plentyn,

(b) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r darparwr gwasanaethau maethu yn ddi-oed, gyda manylion llawn, am—

(i) unrhyw fwriad i newid cyfeiriad y rhiant maeth,

(ii) unrhyw newid yn y personau sy'n ffurfio'r aelwyd,

(iii) unrhyw newid arall yn amgylchiadau personol y rhiant maeth ac unrhyw ddigwyddiad arall sy'n effeithio naill ai ar ei allu i ofalu am unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli neu ar addasrwydd yr aelwyd, a

(iv) unrhyw archiad neu gais i fabwysiadu plant, neu i gofrestru ar gyfer gwarchod plant neu ofal dydd o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010,

(c) peidio â chosbi'n gorfforol unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth,

(d) sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth, â theulu'r plentyn neu ag unrhyw berson arall, ac sydd wedi ei rhoi iddo yn gyfrinachol mewn cysylltiad â lleoliad, yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac nad yw'n cael ei datgelu i unrhyw berson heb gydsyniad y darparwr gwasanaethau maethu,

(e) darparu gofal a chymorth i blentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn ac mewn ffordd sy'n cynnal, yn amddiffyn ac yn hybu diogelwch a llesiant y plentyn,

(f) cynnal perthynas bersonol a phroffesiynol dda â phlentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth,

(g) peidio ag amddifadu unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli gyda'r rhiant maeth o ryddid heb awdurdod cyfreithlon,

(h) hybu cyswllt rhwng plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhiant maeth a rhieni, perthnasau a ffrindiau'r plentyn, yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn ac unrhyw orchymyn llys sy'n ymwneud â chyswllt,

(i) cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaethau maethu,

(j) hybu iechyd a datblygiad plentyn sydd wedi ei leoli gyda rhiant maeth,

(k) sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan rieni maeth—

(i) yn addas ac yn ddiogel i'r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato,

(ii) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel,

(iii) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, ac

(iv) yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y maent yn cael eu defnyddio ato,

(l) cydweithredu fel y bo'n rhesymol ofynnol â Gweinidogion Cymru ac yn benodol ganiatáu i berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru gyf-weld â'r rhiant maeth ac ymweld â chartref y rhiant maeth ar unrhyw adeg resymol,

(m) hysbysu'r darparwr gwasanaethau maethu yn rheolaidd am gynnydd y plentyn a'i hysbysu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol sy'n effeithio ar y plentyn.